**EDC-10-99(P3)**

**Yn gysylltiedig ag eitem 4**

**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Dyddiad:** 17 Tachwedd 1999

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl:** Ystyried y Strategaeth Twristiaeth ‘Cyflawni ein Potensial’ a’r Arolwg o Strwythur Twristiaeth Cymru ‘Fit for the Millennium’

**Cyflwyniad**

Mae copïau o strategaeth twristiaeth Bwrdd Croeso Cymru ‘Cyflawni ein Potensial’ (p4) a’r Arolwg o Strwythur Twristiaeth Cymru ‘Fit for the Millennium’ (p6) wedi’u hanfon at Aelodau. Mae Atodiad 1 o bapur 3 yn cynnwys papur esboniadol gan Ysgrifennydd y Cynulliad. Mae Atodiad 2 yn cynnwys papur oddi wrth Bwrdd Croeso Cymru.

**Diben**

Croesewir barn y Pwyllgor yngln â’r materion canlynol:

1. Sut y dylai’r Bwrdd Croeso flaenoriaethu’r amcanion a’r cynllun gweithredu a amlinellir yn ei Strategaeth.

2. A ddylai’r Bwrdd Croeso gyflwyno cynllun cofrestru llety statudol yn hytrach na’r cynllun gwirfoddol presennol

3. A ddylid sefydlu Fforwm twristiaeth blynyddol ar gyfer y diwydiant ai peidio

4. A ddylai’r Pwyllgor gymeradwyo’r newidiadau arfaethedig i strwythur y diwydiant a gynhwysir yn ‘Fit for the Millennium’. Os felly, a yw’r Pwyllgor yn cymeradwyo’r cynnig a argymhellir yn yr adroddiad y dylid comisiynu astudiaeth werthuso annibynnol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 1999**

**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-10-99(P.3) Atodiad 1**

**Dyddiad:** 17 Tachwedd 1999

**Lleoliad**: Ystafell bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: Strategaeth a Strwythur Newydd ar gyfer Twristiaeth yng Nghymru**

**Cyflwyniad**

1. Mae Bwrdd Croeso Cymru (BCC) wedi cyflwyno strategaeth dwristiaeth ddrafft ‘Achieving Our Potential’ a chanlyniadau arolwg o strwythur twristiaeth Cymru ‘Fit for the Millennium’ i’r Cynulliad benderfynu arno.

**STRATEGAETH**

2. Yn dilyn ymgynghori’n eang â’r diwydiant, mae’r Bwrdd Croeso wedi paratoi’r drydedd mewn cyfres o strategaethau twristiaeth cenedlaethol sy’n cwmpasu’r cyfnod rhwng 2000-2010 er mwyn disodli’r strategaeth bresennol ‘Touristiaeth 2000’ a gychwynnodd ym mis Ebrill 1994 ac sy’n dirwyn i ben ar 31 Mawrth 2000.

3. Mae’r strategaeth ddrafft yn cychwyn gyda Chrynodeb Gweithredol ac yna mae’n trafod yr angen am strategaeth newydd, gweledigaeth y Bwrdd Croeso ar gyfer dyfodol twristiaeth yng Nghymru a phwysigrwydd twristiaeth. Eir ymlaen i ystyried twristiaeth a thueddiadau’r farchnad yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig a’r ffactorau a fydd yn effeithio ar dwristiaeth yn y dyfodol. Yna, mae’n trafod strwythur twristiaeth yng Nghymru, y fframwaith polisi a chryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau’r diwydiant, ac i gloi, ymdrinnir â’r Cynllun Gweithredu.

4. Mae gan y Strategaeth bedair egwyddor sylfaenol: Cynaliadwyedd; Ansawdd; Bod yn gystadleuol; Partneriaeth, ac mae’n nodi pedwar prif amcan:-

> **Amcan 1** Marchnata Cymru’n fwy effeithiol fel lleoliad deniadol i’r ymwelwyr ar hyd y flwyddyn
>
> **Amcan 2** Cynnig mwy na disgwyliadau ymwelwyr â Chymru drwy ddarparu safonau uchel a sicrhau fod y buddsoddiad mewn twristiaeth yn ymateb i’w hanghenion cyfnewidiol
>
> **Amcan 3** Gwella proffesiynoldeb a blaengarwch drwy godi proffil y diwydiant a thrwy wella sgiliau, hyfforddiant a chymhelliant y gweithlu.

**Amcan 4** Croesawu ymagwedd fwy cynaliadwy at ddatblygu twristiaeth, gan ddod â budd i gymdeithas, annog cymunedau lleol i gyfranogi a gwella asedau amgylcheddol a diwylliannol unigryw Cymru.

5. O'r amcanion hyn, mae'r Bwrdd Croeso wedi nodi targedau strategol ar gyfer y diwydiant hyd at 2010 a Chynllun Gweithredu ac ynddo 49 pwynt gydag amserlen dros dro. Amgaeir crynodeb o'r pwyntiau gweithredu yn Atodiad A.

**Ymgynghori**

6. Mae'r Strategaeth yn deillio o broses ymgynghori eang o fewn y diwydiant gan gynnwys gweithredwyr twristiaeth y sector preifat, awdurdodau lleol, cyrff masnachol a chyrff eraill y sector cyhoeddus (boed yn statudol neu'n anstatudol) sydd â diddordeb mewn twristiaeth. Gofynnwyd am sylwadau ar y ddogfen ymgynghori gychwynnol a'r papurau pwnc a oedd yn ymdrin â 40 o faterion strategol ac yna cynhaliwyd 5 gweithdy ymgynghori rhanbarthol ledled Cymru. Trafodwyd drafft cyntaf y strategaeth yn y Fforwm Twristiaeth Cenedlaethol (o dan gadeiryddiaeth Rhodri Morgan ac oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o holl fuddiannau twristiaeth yng Nghymru) a dosbarthwyd y drafft am sylwadau pellach, ar gyfer eu hymgorffori yn y drafft terfynol.

**Safbwyntiau'r Deyrnas Unedig**

7. Mae gan Fwrdd Croeso'r Alban a Bwrdd Croeso Gogledd Iwerddon eu strategaethau eu hunain. Lansiodd Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon 'Tomorrow's Tourism' yn mis Chwefror 1999, sef strategaeth ar gyfer twristiaeth yn Lloegr ond gan gynnwys goblygiadau ar gyfer rhanbarthau eraill y DU y rhoddir ystyriaeth iddynt wrth baratoi 'Achieving Our Potential'.

**STRWYTHUR**

7. Ar gais y Gweinidog bryd hynny, Peter Hain, sefydlodd y Bwrdd Croeso weithgor ym mis Chwefror 1999 i egluro'i rolau a'i gyfrifoldebau o fewn y diwydiant twristiaeth. Cadeiriwyd y gweithgor gan Ian Rutherford (aelod o Fwrdd y Bwrdd Croeso). Yr oedd aelodau'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr Bwrdd Croeso Cymru, Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r cyrff masnachu (ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 1 o'r Adroddiad).

8. Cylch gorchwyl y gweithgor a bennwyd gan y Swyddfa Gymreig oedd:-

- Archwilio ac egluro rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd Croeso, Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol (CTRh) ac awdurdodau lleol;
- Adolygu ac asesu effeithiolrwydd y strwythur presennol a gweithgareddau'r tri chorff;
- Adnabod unrhyw feysydd ar gyfer gwella'r strwythur presennol gan gynnwys unrhyw newidiadau posibl i'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n bodoli eisoes;
- Darparu adroddiad ysgrifenedig ac argymhellion i Mr Hain erbyn 31 Mawrth 1999.

**Strwythur Presennol**

9. Sefydlwyd Bwrdd Croeso Cymru o dan Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 fel y prif asiantaeth twristiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Ei rôl ganolog yw rhoi arweiniad strategol i'r diwydiant yn ogystal â chydlynu gwaith marchnata cenedlaethol yn y DU a thramor, rhoi cymorth grant i fusnesau twristiaeth, pennu safonau ansawdd a chynnal ymchwil ar ran y diwydiant. Mae'r tri Chwmni Twristiaeth Rhanbarthol (CTRh) yn gwmnïau preifat cyfyngedig trwy warant ac mae gan bob un ohonynt Fwrdd o Gyfarwyddwyr y mae ei aelodau wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y cyrff masnach ac awdurdodau lleol. Cânt eu hariannu gan y Bwrdd Croeso, ffioedd ymaelodi a gweithgareddau masnach. Maent yn gwerthu eu gwasanaethau i'w haelodau ac i'r diwydiant yn gyffredinol a gweithredant fel cynrychiolydd rhanbarthol y Bwrdd Croeso trwy gontract (mae'r contractau ffurfiol hyn yn para am 5 mlynedd ar hyn o bryd). Nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i hybu twristiaeth ond maent yn cefnogi'r diwydiant yn uniongyrchol drwy ariannu hamddena ac amwynderau, marchnata cyrchfannau, Canolfannau Croeso a threfnu digwyddiadau. Rhoddir cefnogaeth anuniongyrchol drwy ddarparu cyfleusterau hanfodol (megis toiledau cyhoeddus), gwasanaethau ac isadeiledd a rheoli datblygu, addysg a hyfforddiant.

10. Mae'r Adroddiad yn cychwyn gyda Chrynodeb Gweithredol gyda thrafodaeth i ddilyn ac archwiliad o pwy sy'n gwneud beth o fewn y diwydiant twristiaeth. Caiff effeithiolrwydd y strwythur presennol ei adolygu a'i asesu ac archwilir strwythur newydd yn ei le a gwneir argymhellion. Daw'r adroddiad i ben gyda chrynodeb o'r ymgynghori a'r ymatebion a ddaeth i law.

11. Ystyriwyd a gwerthuswyd chwe opsiwn gan y Gweithgor a cheir crynodeb o'r rhain yn Atodiad 2. Yr oedd pob opsiwn yn credu y byddai arweiniad strategol a rôl polisi'r Bwrdd Croeso yn parhau ac y byddai awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am isadeiledd lleol, gwasanaethau a rheolaeth ymwelwyr. Mae pob opsiwn hefyd yn cynnwys sefydlu Fforwm Twristiaeth Cenedlaethol ar gyfer y diwydiant cyfan i wella cydlyniant; a'r angen am lais masnachol cryf gydag un corff aelodaeth.

**Argymhellion yr Adroddiad**

12. Yr oedd y Gweithgor yn frwd dros argymell Opsiwn 4. Byddai'n arwain at rannu'r cyfrifoldeb a'r rolau yn dri rhan rhwng y Bwrdd Croeso, awdurdodau lleol a chorff masnachol newydd o'r enw Twristiaeth Cymru. Mae strwythur o'r fath wedi'i seilio i raddau ar fodel o Awstralia, a gellir ei gyflawni fel a ganlyn:

- Bydd y Bwrdd Croeso yn parhau'n brif gorff twristiaeth gan gadw ac ehangu'i bolisi craidd a'i rôl strategol. Er mwyn cyflawni hyn, dylai wella'i bresenoldeb yn y rhanbarthau
- creu corff aelodaeth cenedlaethol newydd 'Twristiaeth Cymru' i gynrychioli'r diwydiant twristiaeth ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a sectoraidd ar ôl cynnal arolwg annibynnol a gomisiynir i archwilio sut orau i gyflawni hyn a gwerthuso'r goblygiadau ar gyfer y diwydiant
- Annog awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar reoli cyrchfannau

(gan gynnwys rheoli ymwelwyr, ôl-ofal a gwybodaeth) a darparu isadeiledd a chyfleusterau. Dylid eu hannog hefyd i ddatblygu partneriaeth weithio ymhellach gyda'r Bwrdd Croeso a'r corff newydd 'Twristiaeth Cymru'

- Clustnodi digon o adnoddau i awdurdodau lleol i'w galluogi i allu rheoli cyrchfannau mewn ffordd integredig o ansawdd uchel.
- Sefydlu Fforwm Twristiaeth Cenedlaethol i Gymru i gyfarfod unwaith neu ddwywaith y flwyddyn fel ffordd o wella cydlyniant a chyfathrebu rhwng y prif rai sy'n cymryd rhan a monitro cynnydd y Strategaeth Twristiaeth Genedlaethol

**Y broses ymgynghori**

13. Cyfarfu'r gweithgor dair gwaith yn ystod gwanwyn 1999 a thrafodwyd eu hadroddiad drafft yn y Fforwm Twristiaeth Cenedlaethol yn mis Gorffennaf a gwahoddwyd sylwadau oddi wrth fudiadau a oedd â diddordeb mewn twristiaeth.

**Safbwyntiau'r DU**

14. Mae gan Ogledd Iwerddon a'r Alban Fyrddau Croeso weddol debyg. Diddymwyd Bwrdd Croeso Lloegr yn ddiweddar a sefydlwyd Cyngor Twristiaeth Lloegr yn ei le, ac mae gan y Cyngor rôl strategol sydd prin wedi'i ddiffinio. Nid oes modd ei gymharu â Byrddau Croeso cenedlaethol eraill gan fod materion gweithredol yn cael eu datganoli i rwydwaith Bwrdd Croeso Rhanbarthol Lloegr.

**ATODIAD A**

**Amcan 1**

Mae Pwyntiau Gweithredu Amcan 1 yn ymwneud yn bennaf â pharhau â gwaith y Bwrdd ar:

- <u>Sefydlu hunaniaeth genedlaethol sy'n gyson glir a phositif</u> ledled y diwydiant ac sy'n cyd-fynd â gwaith grp Brandio Cymru. Sicrhau bod y brand hwn yn ymateb i farn cwsmeriaid a chodi ymwybyddiaeth drwy gyfrwng ymgyrchoedd marchnata integredig.
- <u>Targedu'n effeithiol y cwsmeriaid hynny sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu busnes</u> drwy adnabod, blaenoriaethu a deall segmentau'r farchnad a dargedir a hyrwyddo'r diwydiant i gyfathrebu gan ganolbwyntio ar y cwsmer
- <u>Cydlynu'r ymgyrch farchnata</u> drwy annog partneriaethau marchnata rhwng busnesau twristiaeth, a'u hannog i ddefnyddio technegau a thechnolegau newydd megis y rhyngrwyd.
- <u>Ymestyn y tymor twristiaeth y tu hwnt i fisoedd yr haf</u> drwy roi pwyslais cynyddol ar hyrwyddo gwyliau byr/gwyliau ychwanegol y tu allan i'r cyfnod brig yn ogystal â thwristiaeth busnes/ cynadleddau, gan annog lletyau, atyniadau a chyfleusterau i aros ar agor am gyfnodau hwy, a sefydlu gweithgor ar gyfer y diwydiant i baratoi strategaeth digwyddiadau/gwyliau cenedlaethol a ffyrdd o ddatblygu pecynnau (mewn cysylltiad â'r sectorau llety a thrafnidiaeth) a sefydlu

gweithgor arall i gydlynu marchnata twristiaeth busnes.

- Annog defnydd cynyddol a mwy effeithiol o ymchwil a gwybodaeth marchnata am gwsmeriaid a chystadleuwyr gyda Bwrdd Croeso Cymru'n darparu gwell dadansoddiad o'r wybodaeth hon ac yn ei dosbarthu'n fwy effeithiol yn y diwydiant, paratoi strategaeth ymchwil ar y cyd, annog y diwydiant i gynnal mwy o ymchwil i gwsmeriaid, cynnal archwiliadau cyson o sylwadau ymwelwyr, cynhyrchu adroddiadau cyson (i'r diwydiant ac i'r Cynulliad Cenedlaethol) ar weithgareddau a strategaethau cystadleuwyr, a sefydlu gweithgor i'r diwydiant, i benderfynu ar raglen weithredu i fonitro gweithgaredd cystadleuwyr a mesurau i wella cyfathrebu o fewn y diwydiant.
- Galluogi ymwelwyr i wneud defnydd mwy gweithredol a chyson o wybodaeth gan gyflwyno pwynt cyswllt penodol ar gyfer ymholiadau cychwynnol, adolygu'r is-strwythurau presennol mewn perthynas ag adnoddau ac anghenion ymwelwyr a datblygu rhwydwaith gwasanaeth gwybodaeth i dwristiaid gyda thechnoleg integredig i alluogi cwsmeriaid i archebu gwyliau'n rhyngweithiol.
- Cynyddu'r defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) drwy sefydlu gweithgor i'r diwydiant i baratoi strategaeth ar gyfer darparu gwybodaeth, marchnata ac archebu gwyliau dros y Rhyngrwyd etc a datblygu canllawiau arfer da er mwyn sicrhau cydymffurfedd.

**Amcan 2**

Lluniwyd Pwyntiau Gweithredu Amcan 2 i:

- Wella ansawdd a chystadleuaeth drwy gyflwyno cynllun cofrestru statudol ar gyfer y sector llety ac adolygu'r cynlluniau graddio ansawdd gwirfoddol presennol
- Mabwysiadu ymagwedd mwy strategol at fuddsoddi drwy baratoi strategaeth buddsoddi gorfforaethol 10 mlynedd sy'n ystyried yr angen am dargedu a buddsoddi arian mewn modd integredig (Cronfeydd yr UE yn cynnwys **Arian Amcan 1** a Grantiau Buddsoddi Trefol yn ogystal â chynllun grantiau cyfalaf Bwrdd Croeso Cymru, Adran 4). Yn ogystal â llety, maent yn cynnig targedu meysydd penodol, atyniadau, gwyliau gweithgaredd ac isadeiledd/cyfleusterau.

**Amcan 3**

Lluniwyd Pwyntiau Gweithredu Amcan 3 er mwyn gwella proffil twristiaeth a chodi safonau gwasanaeth trwy

- Recriwtio a chynnal staff o safon drwy weithio gyda Springboard Wales (a lansiwyd ym 1998 i annog pobl o safon i weithio ym myd twristiaeth a Lletygarwch), y Grp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, a'r Fforwm Hyfforddi Twristiaeth (Bwrdd Croeso Cymru, TECs, Awdurdodau Lleol, CADW etc) i annog y diwydiant twristiaeth a'r sector addysg i gydweithio'n fwy effeithiol i hyfforddi a hyrwyddo potensial y diwydiant twristiaeth fel gyrfa strwythuredig
- Gwella sgiliau o fewn y diwydiant trwy gefnogaeth a hyfforddiant mwy cydlyn i fyd busnes, a chanolbwynt ar annog arferion busnes mwy effeithiol

- Codi statws a phroffil twristiaeth drwy lunio strategaeth gyfathrebu gydlyn a sefydlu Fforwm Twristiaeth Cenedlaethol i fonitro a chloriannu gweithrediad y strategaeth o safbwynt perfformiad, amodau economaidd a'r arian sydd ar gael

**Amcan 4**

Lluniwyd Pwyntiau Gweithredu Amcan 4 i ddelio â materion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol:

- Gwella'r amgylchedd trwy hyrwyddo arfer da mewn perthynas â'r amgylchedd a gwneud grantiau Bwrdd Croeso Cymru yn amodol ar gydymffurfiaeth, ehangu cynlluniau sydd wedi'u hanelu at wella ansawdd yr amgylchedd arfordirol, annog ymwelwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a chyflwyno cynllun peilot "talu am gadwraeth" trwy gyfraniad ymwelwyr
- Ehangu buddion twristiaeth i'r gymuned trwy annog partneriaethau twristiaeth cymunedol (gan gynnwys twristiaeth fferm a thwristiaeth amaeth) a mabwysiadu cynlluniau gweithredu lleol integredig, i hyrwyddo'r defnydd o gynnyrch/cyflenwadau lleol a gwella cefnogaeth ar gyfer busnesau twristiaeth cynhenid newydd
- Cefnogi diwylliant ac iaith Cymru trwy strategaeth dwristiaeth ledled y diwydiant ac annog cwmnïau i gymryd rhan yn y fenter gofal cwsmer, "Croeso i'r Celfyddydau"
- Ehangu mynediad i dwristiaeth trwy gynnal ymchwil i'r sectorau nad ydynt yn mynd ar wyliau, gan annog cyfleoedd cyfartal wrth benodi yn y diwydiant ac annog darparu cyfleusterau ar gyfer y rheini ag anghenion addysgol arbennig

**ATODIAD B**

Dewis 1 Cynnwys Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol o dan Fwrdd Croeso Cymru unwaith eto i gryfhau rôl ranbarthol Bwrdd Croeso Cymru; ffurfio cyrff aelodaeth masnachol i hybu buddiannau aelodau ac i ddarparu llais rhanbarthol; byddai rôl Awdurdodau lleol yn parhau yr un peth

Dewis 2 Bwrdd Croeso Cymru'n cryfhau ei bresenoldeb rhanbarthol; Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol i beidio â gweithredu fel cynrychiolwyr rhanbarthol y Bwrdd Croeso ond yn aelodau ohono ac yn cyflawni gwaith gweithredol ar ran Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdodau Lleol ar sail contract masnachol; byddai Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol yn cydweithio â chyrff masnachol yng Nghyngrair Twristiaeth Cymru i ddarparu llais cenedlaethol i'r diwydiant; Awdurdodau lleol i farchnata'u hardaloedd drwy'r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol

Dewis 3 Bwrdd Croeso Cymru i ddatganoli ei swyddogaethau i Gwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol a chanolbwyntio ar swyddogaethau polisi gan drosglwyddo staff ac adnoddau yn unol â hyn; Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol i ysgwyddo rôl cynrychioliadol Bwrdd Croeso Cymru yn y rhanbarthau gan ffurfio canghennau lleol i wella cysylltiadau cymunedol; ar y cyd â chyrff masnachol, bydd Cwmnïau Twristiaeth rhanbarthol yn cydweithio â chyrff masnach yng Nghyngrair Twristiaeth Cymru

Dewis 4 Ffurfio corff aelodaeth cenedlaethol,Twristiaeth Cymru, drwy uno Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol gyda chyrff masnachol i ddarparu llais diwydiannol cenedlaethol; gallai Twristiaeth Cymru ysgwyddo cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd a chwblhau gwaith gweithredol sy'n gydnaws â'i gyfrifoldebau ar ran Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdodau Lleol; bydd Bwrdd Croeso Cymru yn cryfhau presenoldeb rhanbarthol gan ganolbwyntio ar gysylltiadau polisi a strategaeth; Awdurdodau Lleol i reoli cyrchfannau o ansawdd a datblygu cynnyrch

Dewis 5 Creu rhanbarthau marchnata newydd ag iddynt sail cynnyrch a hunaniaeth twristiaeth dichonadwy yn lle'r ardaloedd marchnata'r DU, y grwpiau marchnata tramor a'r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol; byddai gan bob rhanbarth weithrediaeth fechan a Bwrdd i weinyddu a goruchwylio'r gwaith; byddai cymdeithasau twristiaeth lleol yn ymwneud â materion lleol a byddai Cynghrair Twristiaeth Cymru'n cynrychioli llais y diwydiant

Dewis 6 Creu 4 Bwrdd Twristiaeth Rhanbarthol (yn cynnwys Bwrdd Croeso Cymru, Twristiaeth Cymru a chynrychiolaeth yr Awdurdodau Lleol) i ddarparu strategaethau twristiaeth rhanbarthol ac i gydlynu gweithgareddau Awdurdod Lleol gyda chyllidebau wedi'u datganoli ar gyfer cyd-farchnata, grantiau ar raddfa fechan etc; creu corff aelodaeth masnachol 'Twristiaeth Cymru' gyda chefnogaeth weinyddol y Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol

**ATODIAD 2**

## MEMORANDWM

At: Aelodau Pwyllgor Datblygu Economaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Oddi Wrth: Bwrdd Croeso Cymru

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn croesawi'r cyfle i drafod y cyfraniad y gellid ei wneud gan y Bwrdd a thwristiaeth tuag at ffyniant Cymru.

Cyfraniad tuag at yr Economi

- £1.9 biliwn o wariant uniongyrchol y flwyddyn, 7% o CDG Cymru. Mae twristiaeth yn cyfrannu 6% yn yr Alban, a 5% yn Lloegr.
- 10.9 miliwn ymweliad twristiaeth â Chymru bob blwyddyn, yn creu bron i 50 miliwn arhosiad dros nos.
- 65 miliwn ymweliad hamdden bob blwyddyn.
- Bron i 1 miliwn o ymwelwyr tramor yn dod i mewn â •226 miliwn.

- 100,000 o swyddi, neu 1 o bob 9 swydd yn yr economi Cymreig.
- Bydd twristiaeth yn gyfrifol am 1 o bob 4 swydd newydd a greir yn y D.U.
- Mae twristiaeth yn cyfrannu at bob rhan o Gymru: ardaloedd gwledig a threfol, arfordirol ac mewn tirol, traddodiadol ac unrhyw gyrchfannau newydd.

Amcanion BCC

a) Mae ein hamcanion wedi'u gosod allan yn glir yn ein drafft strategaeth twristiaeth ar gyfer Cymru •Cyflawni ein Potensial sef canlyniad dros 12 mis o ymgynghori.

b) Ar gyfer y flwyddyn gyfredol amlinellir ein blaenoriaethau strategol a•n targedau yn llythyr Canllawiau Strategol yr Ysgrifennydd Gwladol bryd hynny. Cyflwynwyd ein hadroddiad hanner blwyddyn i swyddogion CCC.

Cyllidebau

Mae'r gymhariaeth ganlynol rhwng Bwrdd Croeso Cymru a Bwrdd Croeso'r Alban yn amlygu'r gystadleuaeth a wynebwn yn y farchnad gartref yn y D.U.

BCC 1999/00 BCA 1999/00

Cymorth drwy Grant £15.4m £19.3m

Staff 108 180

Rheolwyr PW + 4 Cyfarwyddwr PW + 7 Cyfarwyddwr

Gwerth y diwydiant £1.9 biliwn £2.5 biliwn

Cyfraniad at CDG 7% 6%

Amcan 1

Gweledigaeth Strategaethol

I greu diwydiant aeddfed, hyderus a llewyrchus yng Ngorllewin Cymru ar Gymoedd sy'n gwneud cyfraniad hanfodol a chynyddol i ffyniant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru wrth gyflawni cynnydd cynaladwy trwy gyd-drefnu a chydweithredu effeithiol ar bob lefel o fewn i'r diwydiant.

Cefnogir y weledigaeth yma gan yr amcanion allweddol canlynol:

1. I farchnata Cymru'n fwy effeithiol fel cyrchfan twristiaeth atyniadol drwy gydol y flwyddyn.

2. I fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau ymwelwyr â Gorllewin Cymru a'r Cymoedd trwy ddarparu safonau uchel a sicrhau bod buddsoddi mewn twristiaeth yn ymateb i newidiadau i'w hanghenion.

3. I fabwysiadu ymdriniaeth cynaladwy o ddatblygu twristiaeth sydd o fudd i gymdeithas, yn gysylltiedig â'r gymuned leol ac yn ychwanegu at asedau amgylcheddol a diwylliannol unigryw Gymru.

Amcan cyflenwol a gaiff ei ddilyn gan fwyaf y tu allan i'r cynllun gweithredu yma fydd i wella proffesiynoldeb a dyfeisgarwch trwy godi proffil y diwydiant a chynyddu sgiliau, hyfforddiant a chymhelliant o fewn i'r gweithlu.